



Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

7 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol, rwy'n eich hysbysu y cafodd cyfarfod arall y Grŵp Rhyngweinidogol – yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei gynnal ar 16 Mai.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Edwin Poots ACD, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (Cadeirydd); George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU; Victoria Prentis AS, Gweinidog Gwladol, DEFRA, Llywodraeth y DU; Mairi McAllan, Gweinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom ailystyried yr argyfwng yn Wcráin a'r effaith ar gostau cynhyrchu gwrteithiau, bwydydd anifeiliaid a thanwydd. Gwnaethom hefyd drafod trefniadau rhoi anifeiliaid anwes mewn cwarantin, a phwysais ar Lywodraeth y DU i roi sicrwydd y byddai lleoedd ar gael mewn cyfleusterau cwarantin ar gyfer pob cenedl yn y DU ni waeth beth yw'r gwahaniaethau rhwng eu polisïau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Darparodd Llywodraeth y DU bapur yn nodi ei safbwynt diweddaraf ynglŷn â pharatoadau ar gyfer rheoli ffiniau, a chadarnhaodd na châi rhagor o fesurau rheoli mewnforion eu cyflwyno yn ystod 2022. Nodais fy mhryderon, unwaith eto, fod gwiriadau'n cael eu hoedi, a hynny heb ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ymlaen llaw – mae hwn yn ymddygiad sydd wedi datblygu'n batrwm braidd o ran Llywodraeth y DU. At hynny, nodais bryderon fy Mhrif Swyddog Milfeddygol ynghylch goblygiadau'r oedi i fioddiogelwch, yn ogystal â siom rhanddeiliaid oherwydd y diffyg tegwch rhwng mewnforwyr ac allforwyr, sy'n rhoi cynhyrchwyr domestig dan anfantais o ran cystadlu.

Nododd Llywodraeth y DU ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y dyfodol ynghyd â'i chynigion yn deillio o araith y Frenhines, a oedd yn cynnwys Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl); Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir); Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a Bil Caffael.

Daeth Llywodraeth yr Alban â'r cyfarfod i ben drwy gyflwyno'i fframwaith ar gyfer dyfodol polisiau ym maes amaethyddiaeth yn yr Alban, sy'n canolbwyntio ar fentrau diwygio tir, adfer natur a ffermio cynaliadwy. Mae'r Alban yn dilyn trywydd tebyg i Gymru, gyda system o gymorth sylfaenol a thaliadau amodol ychwanegol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Gwnaethom gytuno y câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal wyneb yn wyneb ddydd Mercher, 20 Gorffennaf, yn ystod Sioe Frenhinol Cymru, pan fwriadaf nodi cynigion amaethyddol Cymru i'r dyfodol.

Caiff hysbysiad ynglŷn â'r cyfarfod hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn: <https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.